Papur 5
Paper 5

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog a’r Prif Chwip**
**Deputy Minister and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JH/1873/20

John Griffiths AS/MS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Senedd Cymru

30 Mehefin 2020

Annwyl John,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 29 Mai yn gofyn am wybodaeth bellach ynghylch effeithiau pandemig Covid-19 ar feysydd yn fy mhortffolio i, yn dilyn fy mhresenoldeb yng nghyfarfod y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar 15 Mai. Er hwylustod, rwyf wedi nodi'r ymatebion i'ch cwestiynau o dan y penawdau canlynol.

**Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)**

Fel y cytunwyd yn ystod fy sesiwn dystiolaeth gyda'r Pwyllgor, rwyf wedi amgáu fy ymateb **(Atodiad A)**.

Y gyllideb refeniw ar gyfer 2017-18 oedd £4.5 miliwn a'r gyllideb gyfalaf oedd £959k. Yr adeg honno, y bwriad oedd y dylai cyllideb refeniw VAWDASV fod yn rhan o'r cynllun peilot ariannu hyblyg a fyddai wedi dwyn ynghyd 11 o grantiau i greu un grant. Gwnaeth Llywodraeth Cymru dderbyn sylwadau gan y sector a chytuno y dylai cyllid VAWDASV barhau i gael ei glustnodi, a chytunodd hefyd i gynyddu'r gyllideb £0.5 miliwn yn 2018-19.

Cafodd y gyllideb refeniw ei chynyddu eto ddwy flynedd yn ddiweddarach, yn 2020-21, i £5.25 miliwn. Ar yr un pryd, cytunodd y Cabinet ar grant cyfalaf ychwanegol o £1.2 miliwn am flwyddyn ar gyfer llety gwasgaredig yn y gymuned i'r rheini sy'n dianc rhag cam-drin domestig. Felly, cyfanswm y grant cyfalaf VAWDASV yn 2020-21 oedd £2.169 miliwn. Cadarnhawyd hyn yn y gyllideb derfynol ym mis Mawrth 2020.

Mae grant cyfalaf ychwanegol o £1.2 miliwn i gyd wedi'i ddyrannu drwy bartneriaethau rhanbarthol VAWDASV, ond rydym yn dal i aros am y canlyniadau terfynol gan Gaerdydd a'r Fro a oedd wedi dewis caffael prosiectau yn y rhanbarth hwn yn hytrach na'u hariannu gyda grantiau. Amlinellwyd hyn, a gwybodaeth bellach, yn fy llythyr dyddiedig 28 Ebrill

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

mewn ymateb i Sara Kirkpatrick, Prif Weithredwr newydd Cymorth i Fenywod Cymru **(Atodiad A)**.

Cydnabyddwyd y pwysau sy'n wynebu'r sector o ganlyniad i bandemig y coronafeirws a thrafodwyd â Chymorth y Fenywod Cymru sut y gallai'r sefydliad weithio gyda ni i roi arweiniad strategol i'r sector. Mae Cymorth y Menywod Cymru wedi cyflwyno eu cynigion ar gyfer dyrannu cyllid ychwanegol yr wythnos hon.

Yn fwy arwyddocaol na hynny, rydym wedi ystyried tystiolaeth ryngwladol o argyfyngau blaenorol, megis y cwymp economaidd yn 2009 a thrychinebau naturiol fel daeargryn Christchurch, sy'n dangos bod digwyddiadau fel hyn yn tueddi i arwain at gynnydd mewn cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r cyfyngiadau symud o osodwyd i ddiogelu iechyd y cyhoedd yn debygol iawn o waethygu effaith y pandemig ar nifer yr achosion o VAWDASV. Felly, cyflwynais gais llwyddiannus i'r Star Chamber am £1.575 miliwn pellach o gyllid refeniw. Bydd hyn yn helpu darparwyr gwasanaethau arbenigol i ddatblygu eu gallu i oroesi argyfwng Covid-19 ac i baratoi ar gyfer y cynnydd disgwyliedig yn y galw am eu gwasanaethau.

Eleni, felly, mae'r sector VAWDASV wedi gweld cynnydd yn y cyllid refeniw sydd wedi'i glustnodi o £5 miliwn yn 2019-20 i £6.825 miliwn yn 2020-21 - sy'n gynnydd o 31.5 y cant. Hefyd, gwelwyd cynnydd yn y cyllid cyfalaf o £969k i £2,169 miliwn - sy'n gynnydd o 124%.

Yn ogystal â chyllid wedi'i glustnodi, mae'r sector VAWDASV yn gallu gwneud cais i Gronfa Argyfwng y Sector Gwirfoddol ac i Gronfa Cadernid y Trydydd Sector. Hyd yn hyn, mae'r sector VAWDASV wedi cael £343,536 gan Gronfa Argyfwng y Sector Gwirfoddol, ac mae cais pellach am £171,066 a wnaed ar y cyd gan 10 o sefydliadau Cymorth i Fenywod wrthi'n cael ei ystyried. Ni wnaed unrhyw geisiadau o'r sector i Gronfa Cadernid y Trydydd Sector; rydym wedi bod yn hyrwyddo'r gronfa hon ymhlith y sector.

Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid hwn wedi'i ddyfarnu mewn ymateb i'r amgylchiadau eithriadol a wynebir oherwydd pandemig Covid-19, ond roedd y cynnydd yn y grant cyfalaf ar gyfer lleihau'r pwysau ar ffoaduriaid. Er mai cyllid untro ar gyfer eleni yw hwn, bydd yn arwain at fanteision parhaus. Credaf y bydd yr hyfforddiant, y cynnydd mewn capasiti a'r gwelliant o ran cadernid a hwylusir gan y cyllid ychwanegol o £1.575 miliwn, ynghyd â'r hyn a ddysgwyd o weithio yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud, yn helpu i gryfhau'r sector yn y blynyddoedd nesaf.

**Y Grŵp Cyllid Cynaliadwy ar gyfer VAWDASV**

Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n partneriaid hirdymor i ddatblygu model cyllid cynaliadwy ar gyfer darparu gwasanaethau arbenigol fel sail i'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth VAWDASV Cenedlaethol.

Cyflwynodd fy swyddogion dau gynnig i'r grŵp yn 2019 ar gyfer model cyllid cynaliadwy, ac roedd un ohonynt yn seiliedig ar y model a fabwysiadwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC); ni chafodd y modelau eu derbyn gan y Grŵp. Cyflwynodd Eleri Butler (Prif Swyddog Gweithredol Cymorth i Fenywod Cymru ar y pryd), Natalie Southgate (Partneriaeth Ranbarthol Caerdydd a'r Fro) a Karen Jones (Partneriaeth Ranbarthol Bae'r Gorllewin) bapur yn amlinellu eu cynigion nhw ar gyfer cyllid cynaliadwy.

Ers hynny, mae'r Grŵp Cyllid Cynaliadwy wedi cwrdd, ac roedd y cyfarfod diwethaf ar 12 Mai. Yn ystod y cyfarfod hwn, penderfynodd yr aelodau y byddai angen i ni gynnal ymarfer mapio cyllid llawn ar gyfer darpariaeth VAWDASV yng Nghymru er mwyn gallu llunio a chytuno ar fodel cyllid cynaliadwy cynhwysfawr ar gyfer Cymru. Cytunodd aelodau'r grŵp i gydgysylltu'r ymarfer mapio a bydd y swyddogion yn casglu'r ymatebion ac yn eu cyflwyno

yn y cyfarfod nesaf a gynhelir ganol mis Gorffennaf. Bydd hyn yn rhoi’r sylfaen ar gyfer adolygu'r ddarpariaeth a’r ffynonellau cyllid cyfredol a nodi unrhyw fylchau sydd ar ôl. Bydd dyddiad cwblhau newydd yn cael ei bennu a'i gytuno yn y cyfarfod nesaf.

**Cymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME)**

Mae'n dda gennyf eich hysbysu bod Grŵp Cynghori BAME wedi datblygu a gweithredu pecyn cymorth Asesu Risg a hefyd wedi cyhoeddi eu Hadroddiad Economaidd-gymdeithasol ar 22 Mehefin 2020. Gwnaeth Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar yr un diwrnod yn croesawu'r adroddiad hwn, ac mae ymateb ffurfiol yn cael ei baratoi ar hyn o bryd. Bydd yr argymhellion o'r Adroddiad Economaidd-gymdeithasol yn sylfaen ar gyfer Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Cymru, sydd wrthi'n cael ei ddatblygu ac a fydd yn arwain at ymgysylltu eang â chymunedau ar draws Cymru.

**Cam-drin pobl hŷn**

Yn ystod argyfwng Covid-19, mae wedi bod yn arbennig o bwysig i ddiogelu oedolion sydd ag anghenion o ran gofal a chymorth. Gall yr oedolion hyn fod yn fwy agored i gamdriniaeth ac esgeulustod wrth i eraill geisio manteisio arnynt oherwydd eu hoedran, nam meddyliol neu gorfforol neu salwch. Rydym yn gwybod nad oes modd cyrraedd llawer o bobl drwy'r cyfryngau cymdeithasol neu ddigidol. Felly, rydym yn chwilio am ffyrdd eraill o gyrraedd y cohort hwn.

Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i sicrhau bod gwaith hanfodol i ddiogelu oedolion sydd mewn perygl yn parhau’n flaenoriaeth yn ystod yr argyfwng. Gwyddom nad oes gan nifer fawr o bobl hŷn fynediad at dechnoleg digidol er enghraifft, ac felly rwy'n awyddus i sicrhau bod awdurdodau lleol a'u partneriaid yn parhau i gynnig dulliau cyfathrebu eraill er mwyn cyrraedd y bobl mwyaf agored i niwed yn eu cymunedau a'u galluogi i hunan-nodi.

Mae swyddogion yn parhau i ddatblygu ffyrdd priodol o gyfathrebu i gyrraedd y gynulleidfa ehangaf posibl er mwyn pwysleisio ac atgyfnerthu'r neges bod diogelu'n gyfrifoldeb i bawb. Bwriedir i'r dulliau hyn gefnogi ac atgyfnerthu'r negeseuon sydd eisoes wedi’u cyfleu gan y Byrddau Diogelu Rhanbarthol. Mae swyddogion yn gweithio i ddarparu canllawiau i'r rheini sy'n dal i weithredu mewn cymunedau ac nad ydynt wedi'u hyfforddi i adnabod arwyddion o gamdriniaeth neu esgeulustod. Bydd y canllawiau'n sôn am yr arwyddion i edrych allan amdanynt a beth i'w wneud os bydd unrhyw bryderon yn codi.

**Data**

Ers 6 Mai, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynnwys ethnigrwydd a statws gweithiwr allweddol fel maes yn eu system adrodd uwch ar gyfer gwyliadwriaeth gyflym o farwolaethau Covid-19.

Nid oedd ethnigrwydd wedi’i nodi ar gyfer oddeutu 30% o’r marwolaethau a adroddwyd drwy system gwyliadwriaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac roedd llai na 10 marwolaeth wedi’u cofnodi hyd at 18 Mehefin ar gyfer pobl o gefndir BAME. Rydym yn gwybod bod hyn yn dangyfrif. Er hynny, mae hyn yn gam pwysig ymlaen at sicrhau bod y data hyn wedi’u cynnwys yn ein data gwyliadwriaeth.

Yn ogystal, yn dilyn ceisiadau gan Lywodraeth Cymru, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar 19 Mehefin ffigurau ar y nifer cyffredinol o farwolaethau cofrestredig yng Nghymru sy’n gysylltiedig â Covid-19 o ddechrau’r pandemig i ganol Mai. Adroddodd yr ONS fod 44 o farwolaethau sy’n gysylltiedig â Covid-19 ymhlith grwpiau BAME rhwng 2 Mawrth a 15 Mai 2020.

Rydym hefyd wedi gofyn bod y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ystyried ar frys a fyddai'n ymarferol ehangu'r data y maent yn eu cyhoeddi ar farwolaethau yn ôl galwedigaeth i gynnwys data allweddol ar gyfer Cymru yn eu herthygl nesaf (a ddisgwylir ar 26 Mehefin).

**Y sector gwirfoddol**

Mae'r tabl canlynol yn darparu gwybodaeth ynghylch gwirfoddoli yng Nghymru ar 8 Mehefin 2020.

| | Nifer |
|---|---|
| Cyfanswm y gwirfoddolwyr a gofrestrwyd | 31,428 |
| Cynnydd ers 1 Mawrth | 18,071 |
| Nifer mewn rolau gwirfoddoli hysbysedig | 7,188 |

Mae'r dadansoddiad o gyfanswm y gwirfoddolwyr ar draws Cymru yn ôl awdurdod lleol fel a ganlyn:

| | PWNC |
|---|---|
| 5139 | Caerdydd |
| 2512 | Abertawe |
| 2101 | Powys |
| 1817 | Casnewydd |
| 1652 | Rhondda Cynon Taf |
| 1591 | Pen-y-bont ar Ogwr |
| 1577 | Caerffili |
| 1377 | Sir y Fflint |
| 1374 | Sir Gaerfyrddin |
| 1275 | Sir Ddinbych |
| 1260 | Morgannwg |
| 1293 | Ardal allanol |
| 1057 | Conwy |
| 1049 | Sir Benfro |
| 902 | Sir Fynwy |
| 884 | Wrecsam |
| 868 | Gwynedd |
| 843 | Torfaen |
| 804 | Castell-nedd Port Talbot |
| 625 | Blaenau Gwent |
| 521 | Ceredigion |
| 456 | Merthyr Tudful |
| 451 | Ynys Môn |

Nid yw'r ffigurau hyn yn cymryd i ystyriaeth y cynnydd mawr yn nifer y gwirfoddolwyr anffurfiol yn y gymuned.

O ran Cronfeydd Argyfwng y Trydydd Sector, caiff elusennau eu blaenoriaethu yn ôl angen ynghyd â'r math o wasanaeth a gynigir. Mae CGGC wedi cyhoeddi rhestr o'r holl sefydliadau sydd wedi cael cymorth o Gronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol a

Chronfa Cadernid y Trydydd Sector. Caiff yr wybodaeth ei diweddaru'n rheolaidd a gellir ei gweld drwy ddilyn y dolenni.

**Gwasanaethau cynghori**

Fel yr amlinellwyd yn fy ymateb diweddar i adroddiad eich Pwyllgor '*Budd-daliadau yng Nghymru: opsiynau i'w cyflawni'n well*', mae fy swyddogion yn gweithio gyda swyddogion o Lywodraeth y DU, yn enwedig o'r Adran Gwaith a Phensiynau, i sicrhau bod pob mesur a gymerir gan Lywodraeth y DU i liniaru effaith Covid-19 yn cael eu hintegreiddio â'r holl gymorth presennol a newydd a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

Byddwn yn adeiladu ar y camau gweithredu a gymerwyd eisoes mewn ymateb i'r argyfwng pan fyddwn yn cynnal ein hadolygiad traws-lywodraethol o'r rhaglenni a'r gwasanaethau cyfredol. Bydd hyn yn cynnwys datblygu ymhellach cyfres o egwyddorion a gwerthoedd a fydd yn sail i 'system fuddiannau i Gymru', gan gymryd i ystyriaeth yr adborth a geir wrth gynnal yr adolygiad, ac adeiladu ar yr egwyddorion craidd y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi'u pennu, sef tosturi, tegwch, urddas a dealltwriaeth.

**Hawliau dynol**

Caiff yr ap olrhain cysylltiadau ei ddatblygu a'i ddarparu gan NHSX, sy'n rhan o Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU. Bydd yn rhoi gwybod i bobl os ydynt wedi dod i gysylltiad â rhywun sydd wedi adrodd symptomau o'r coronafeirws ac yn darparu'r canllawiau diweddaraf iddynt. Bydd hefyd yn caniatáu i bobl drefnu prawf os ydynt yn dechrau dangos symptomau ac, os ydynt yn cael canlyniad positif, yn rhoi'r opsiwn iddynt allu darparu gwybodaeth yn uniongyrchol yn yr ap am eu cysylltiadau.

Cynhelir dadansoddiad hawliau dynol fel rhan o bob asesiad effaith, a dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau am hyn i NHSX a'r Adran Iechyd, sy'n gyfrifol am yr ap.

**Amseroedd blaenoriaeth siopa ar gyfer pobl rhannol ddall**

Lle bo modd, rydym yn cynghori bod pobl rhannol ddall yn gofyn am help gan deulu, ffrindiau a grwpiau cymorth. Mae rhai archfarchnadoedd wedi rhoi mesurau yn eu lle i helpu gofalwyr, gwirfoddolwyr a'r rheini sy'n siopa ar ran bobl eraill, ac mae pob archfarchnad wedi cyflwyno talebau electronig a cardiau rhodd er mwyn i deulu, ffrindiau a gwirfoddolwyr allu siopa ar ran eraill. Amlinellir hyn yn https://llyw.cymru/cael-bwyd-chyflenwadau-hanfodol-yn-ystod-pandemig-y-coronafeirws.

Os nad oes gan bobl help yn lleol, gall eu hawdurdod lleol neu gyngor gwirfoddol lleol roi cymorth ymarferol iddynt.

**Mynediad at ddarpariaeth yr ysgolion hyb ar gyfer disgyblion awtistig**

Rydym yn deall bod yr ansicrwydd sy'n deillio o'r amgylchiadau digynsail yr ydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd yn arbennig o heriol i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol fel awtistiaeth, ynghyd â'u teuluoedd a'r rheini sy'n eu cefnogi ac yn gofalu amdanynt. Rydym wedi ymrwymo i wneud popeth gallwn i gefnogi'r dysgwyr hyn, eu rhieni a'u gofalwyr yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Fe wnaeth ysgolion gau ar gyfer darpariaeth addysg statudol ar 20 Mawrth. Ers hynny, mae darpariaeth wedi bod ar gael i blant agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol mewn ysgolion hyb. Mae ein diffiniad ni o blant agored i niwed yn cynnwys plant sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA). Mae ysgolion wedi bod yn gweithio'n agos â chydweithwyr yn y gwasanaethau plant i nodi'r plant hynny sydd angen cael mynediad at y

ddarpariaeth hon. Ystyrir pob dysgwr yn unigol er mwyn sicrhau bod yr ysgol hyb yn gallu cynnig darpariaeth addas yn ddiogel a diwallu ei anghenion.

Rydym yn gofyn i'r awdurdodau lleol ystyried anghenion pob plentyn a pherson ifanc sydd â datganiad AAA, a chynnal asesiad risg i weld a fydd modd diwallu eu hanghenion gartref gyda chymorth o bell. Rydym hefyd wedi eu cynghori y dylai'r asesiad gynnwys y rhieni neu'r gofalwyr a sylwadau'r plentyn neu'r person ifanc, ac y dylid ei gynnal drwy ddefnyddio dull amlasiantaeth lle'n bosibl. Gwyddom fod nifer fach o ddysgwyr ag AAA wedi'i chael hi'n anodd cael lle mewn ysgol hwb. Rydym yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol ar hyn o bryd i ddatblygu canllawiau ar asesiadau risg, a fydd yn cael eu cyhoeddi maes o law. Dylid adolygu'r asesiadau risg hyn yn sgil y cynnydd yng ngweithrediadau'r ysgolion a lleoliadau addysg ac mewn ymateb i unrhyw newid yn amgylchiadau plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Yn ogystal â'r cymorth sydd ar gael drwy ysgolion a lleoliadau, mae ystod eang o wybodaeth ar gael ar-lein hefyd i helpu i gefnogi plant ag awtistiaeth yn ystod y pandemig hwn. Ceir dolenni i'r wybodaeth hon ar wefan ASDInfoWales, gan gynnwys dolen i becyn gwybodaeth defnyddiol a luniwyd gan weithwyr proffesiynol ym maes iechyd plant.

Rwy'n gobeithio bod yr ymateb hwn yn rhoi'r eglurhad y gofynnodd y Pwyllgor amdano. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, mae croeso ichi gysylltu â mi.

Yn gywir,



**Jane Hutt AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip